**CYNULLIAD CENEDLAETHOL CYMRU**

OFFERYNNAU STATUDOL

# 2004 Rhif 2734 (Cy.241)

# AMAETHYDDIAETH, CYMRU

## Rheoliadau Bwydydd Anifeiliaid (Samplu a Dadansoddi) (Diwygio) (Cymru) 2004

### NODYN ESBONIADOL

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)*

**1**. Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys i Gymru yn unig, ac maent yn diwygio ymhellach Reoliadau Porthiant (Samplu a Dadansoddi) 1999 (O.S. 1999/1663, fel y'i diwygiwyd eisoes) sy'n gymwys i Brydain Fawr yn gyfan.

**2**. Mae'r Rheoliadau hyn yn rhoi ar waith Gyfarwyddeb y Comisiwn 2003/126/EC (OJ Rhif L339, 24.12.2003, t.78) ar y dull dadansoddi ar gyfer penderfynu ar gyfansoddion sy'n dod o anifeiliaid er mwyn rheoli bwyd anifeiliaid yn swyddogol.

**3**. Mae'r Rheoliadau hyn yn adolygu Rheoliadau Porthiant (Samplu a Dadansoddi) 1999 drwy ddarparu bod rhaid i'r weithdrefn a nodir yng Nghyfarwyddeb y Comisiwn 2003/126/EC gael ei defnyddio pan fydd archwiliad microsgopig yn cael ei gynnal at ddibenion penodol (rheoliad 2(2)).

**4**. Lluniwyd arfarniad rheoliadol o effaith yr offeryn hwn ar gostau busnes ac fe'i rhoddwyd yn Llyfrgell Cynulliad Cenedlaethol Cymru ynghyd â Nodyn Trosi sy'n nodi sut mae prif elfennau Cyfarwyddeb y Comisiwn 2003/126/EC yn cael eu trosi i'r gyfraith ddomestig gan y Rheoliadau hyn. Gellir cael copïau oddi wrth Uned Bwyd Anifeiliaid yr Asiantaeth Safonau Bwyd, Llawr 11, Southgate House, Caerdydd, CF10 1EN.

**NATIONAL ASSEMBLY FOR WALES**

STATUTORY INSTRUMENTS

# 2004 No. 2734 (W.241)

# AGRICULTURE, WALES

## The Feeding Stuffs (Sampling and Analysis) (Amendment) (Wales) Regulations 2004

### EXPLANATORY NOTE

*(This note is not part of the Regulations)*

**1**. These Regulations, which apply in relation to Wales only, further amend the Feeding Stuffs (Sampling and Analysis) Regulations 1999 (S.I. 1999/1663, as already amended) which apply to the whole of Great Britain.

**2**. These Regulations implement Commission Directive 2003/126/EC on the analytical method for the determination of constituents of animal origin for the official control of feedingstuffs (OJ No. L339, 24.12.2003, p.78).

**3**. These Regulations revise the Feeding Stuffs (Sampling and Analysis) Regulations 1999 by providing that where a microscopic examination is carried out for specified purposes, the procedure set out in Commission Directive 2003/126/EC shall be used (regulation 2(2)).

**4**. A regulatory appraisal of the effect that this instrument will have on the costs of business has been prepared and placed in the Library of the National Assembly for Wales together with a Transposition Note setting out how the main elements of Commission Directive 2003/126/EC is transposed into domestic law by these Regulations. Copies may be obtained from the Animal Feed Unit of the Food Standards Agency, 11th Floor, Southgate House, Cardiff, CF10 1EN.

OFFERYNNAU STATUDOL

# 2004 Rhif 2734 (Cy.241)

# AMAETHYDDIAETH, CYMRU

## Rheoliadau Bwydydd Anifeiliaid (Samplu a Dadansoddi) (Diwygio) (Cymru) 2004

*Wedi'u gwneud* *19 Hydref 2004*

*Yn dod i rym* *5 Tachwedd 2004*

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru, drwy arfer y pwerau a roddwyd gan adrannau 66(1), 77(4), 78(6) a 84 o Ddeddf Amaethyddiaeth 1970(**a**), ac ar ôl ymgynghori fel sy'n ofynnol o dan adran 84(1) o'r Ddeddf honno a chan Erthygl 9 o Reoliad (EC) Rhif 178/2002 Senedd Ewrop a'r Cyngor sy'n gosod egwyddorion a gofynion cyffredinol cyfraith bwyd, yn sefydlu Awdurdod Diogelwch Bwyd Ewrop ac yn gosod gweithdrefnau ar faterion diogelwch bwyd(**b**), ac yntau'n cael ei ddynodi(**c**) at ddibenion adran 2(2) o Ddeddf y Cymunedau Ewropeaidd 1972(**ch**) mewn perthynas â mesurau sy'n ymwneud â bwyd anifeiliaid a gynhyrchir ar gyfer anifeiliaid sy'n cynhyrchu bwyd neu fwyd anifeiliaid a roddir iddynt, a thrwy arfer y pwerau a roddwyd gan yr adran ddiwethaf uchod (i'r graddau na ellir gwneud y Rheoliadau hyn o dan bwerau Deddf Amaethyddiaeth 1970 a grybwyllir uchod), yn gwneud y Rheoliadau canlynol:

**Enwi, cymhwyso a chychwyn**

**1**.-(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Bwydydd Anifeiliaid (Samplu a Dadansoddi) (Diwygio) (Cymru) 2004.

(2) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys i Gymru'n unig a deuant i rym ar 5 Tachwedd 2004.

(a) 1970 p. 40. Trosglwyddwyd swyddogaethau'r Ysgrifennydd Gwladol, i'r graddau yr oeddent yn arferadwy mewn perthynas â Chymru, i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gan Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru 1999 (Trosglwyddo Swyddogaethau) (O.S. 1999/672).

(b) OJ Rhif L31, 1.2.2002, t.1. O dan Erthygl 3 o'r Rheoliad EC mae "food law" yn rhychwantu bwyd anifeiliaid a gynhyrchir ar gyfer anifeiliaid sy'n cynhyrchu bwyd neu fwyd anifeiliaid a roddir i anifeiliaid sy'n cynhyrchu bwyd.

(c) O.S. 2003/2901.

(ch) 1972 p. 68.

STATUTORY INSTRUMENTS

# 2004 No. 2734 (W.241)

# AGRICULTURE, WALES

## The Feeding Stuffs (Sampling and Analysis) (Amendment) (Wales) Regulations 2004

*Made* *19 October 2004*

*Coming into force* *5 November 2004*

The National Assembly for Wales, in exercise of the powers conferred by sections 66(1), 77(4), 78(6) and 84 of the Agriculture Act 1970(**a**), after consultation as required by section 84(1) of that Act and by Article 9 of Regulation (EC) No. 178/2002 of the European Parliament and of the Council laying down the general principles and requirements of food law, establishing the European Food Safety Authority and laying down procedures in matters of food safety(**b**), and being designated(**c**) for the purposes of section 2(2) of the European Communities Act 1972(**d**) in relation to measures relating to feed produced for or fed to food-producing animals, in exercise of the powers conferred by that last mentioned section (in so far as these Regulations cannot be made under the powers of the Agriculture Act 1970 specified above), makes the following Regulations:

**Title, application and commencement**

**1**.-(1) These Regulations may be cited as the Feeding Stuffs (Sampling and Analysis) (Amendment) (Wales) Regulations 2004.

(2) These Regulations apply in relation to Wales only and come into force on 5 November 2004.

(a) 1970 c. 40. Functions of the Secretary of State, so far as exercisable in relation to Wales, were transferred to the National Assembly for Wales by the National Assembly for Wales (Transfer of Functions) Order 1999 (S.I. 1999/672).

(b) OJ No. L31, 1.2.2002, p.1. Under Article 3 of the EC Regulation, "food law" extends to feed produced for, or fed to, food producing animals.

(c) S.I. 2003/2901.

(d) S.I. 1972 c. 68.

**Diwygio Rheoliadau Porthiant (Samplu a Dadansoddi) 1999**

**2**.-(1) Diwygir Rheoliadau Porthiant (Samplu a Dadansoddi) 1999(**a**), i'r graddau y maent yn gymwys i Gymru, yn unol â pharagraff (2).

(2) Yn lle paragraff (3)(b)(ii) o reoliad 6 (cymhwyso dulliau dadansoddi) rhodder y paragraff a ganlyn -

" (ii) the procedure set out in Commission Directive 2003/126/EC(**b**) on the analytical method for the determination of constituents of animal origin for the official control of feedingstuffs shall be used.".

Llofnodwyd ar ran y Cynulliad Cenedlaethol yn unol ag adran 66(1) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998(**c**)

19 Hydref 2004

Llywydd y Cynulliad Cenedlaethol

**Amendments to the Feeding Stuffs (Sampling and Analysis) Regulations 1999**

**2**.-(1) The Feeding Stuffs (Sampling and Analysis) Regulations 1999(**a**) are amended, insofar as they apply in relation to Wales, in accordance with paragraph (2).

(2) For paragraph (3)(b)(ii) of regulation 6 (application of methods of analysis) substitute the following provision -

" (ii) the procedure set out in Commission Directive 2003/126/EC on the analytical method for the determination of constituents of animal origin for the official control of feedingstuffs(**b**) shall be used.".

Signed on behalf of the National Assembly for Wales under section 66(1) of the Government of Wales Act 1998(**c**)

19 October 2004

*D.Elis-Thomas*

The Presiding Officer of the National Assembly

(a) O.S. 1999/1663, a ddiwygiwyd gan O.S. 1999/1871, O.S. 2001/2253 (Cy.163); O.S. 2002/1797 (Cy.172); O.S. 2003/1677 (Cy.180); O.S. 2003/1850 (Cy.200) ac O.S. 2003/3119 (Cy.297).

(b) OJ Rhif L339, 24.12.2003, t.78.

(c) 1998 p. 38.

(a) S.I. 1999/1663, as amended by S.I. 1999/1871; S.I. 2001/2253 (W.163);. S.I. 2002/1797 (W.172); S.I. 2003/1677 (W.180); S.I. 2003/1850 (W.200) and S.I. 2003/3119 (W.297).

(b) OJ No. L339, 24.12.2003, p.78.

(c) 1998 c.38.

OFFERYNNAU STATUDOL

## 2004 Rhif 2734 (Cy.241)

## AMAETHYDDIAETH, CYMRU

Rheoliadau Bwydydd Anifeiliaid (Samplu a Dadansoddi) (Diwygio) (Cymru) 2004

STATUTORY INSTRUMENTS

## 2004 No. 2734 (W.241)

## AGRICULTURE, WALES

The Feeding Stuffs (Sampling and Analysis) (Amendment) (Wales) Regulations 2004

©ⓗ Hawlfraint y Goron 2004

Argraffwyd a chyhoeddwyd yn y Deyrnas Unedig gan The Stationery Office Limited o dan awdurdod ac arolygiaeth Carol Tullo, Rheolwr Gwasg Ei Mawrhydi ac Argraffydd Deddfau Seneddol y Frenhines.

© Crown copyright 2004

Printed and Published in the UK by the Stationery Office Limited under the authority and superintendence of Carol Tullo, Controller of Her Majesty's Stationery Office and Queen's Printer of Acts of Parliament.

ISBN 0-11-091010-9

9 780110 910109

**£3.00**

W149/10/04 ON